

Arferion darllen plant ysgol gynradd a'r rôl hanfodol mae athrawon yn ei chwarae wrth feithrin mwynhad o ddarllen

Ymchwil gyda phlant, teuluoedd ac athrawon yn y Deyrnas Unedig

Cyflwyniad

Mae ymchwil yn dangos bod plant sy'n mwynhau darllen yn tueddu i ddarllen o'u gwirfodd yn amlach, am gyfnod hirach, ac yn dod yn ddarllenwyr mwy medrus.¹ Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad diweddaraf yn datgelu tuedd bryderus o ran y mwynhad y mae plant yn ei gael o ddarllen: mae'n dechrau dirywio o Gyfnod Allweddol 1 (5-7 oed) ac mae'n parhau i ostwng wrth i blant symud ymlaen drwy'r ysgol gynradd. Mae ein hymchwil hefyd yn tanlinellu'r rôl hanfodol y mae athrawon yn ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r mater hwn trwy ddarparu mynediad, cefnogaeth ac ysbrydoliaeth hanfodol i ddisgyblion a theuluoedd ar gyfer darllen.



Mae plant sy'n darllen yn rheolaidd yn profi ystod eang o fanteision uniongyrchol a gydol oes. Mae'r rhain yn cynnwys gwell sgiliau lleferydd ac iaith, cyflawniad academaidd uwch, gwell lles meddyliol, sgiliau cymdeithasol gwell, a pherthnasau cryfach. Mae darllen hefyd yn meithrin dychymyg, empathi a chreadigrwydd.

O ystyried y bwlch cyrhaeddiad sydd wedi ehangu rhwng plant difreintiedig a'u cyfoedion mwy breintiedig dros y pum mlynedd diwethaf,² mae'n arbennig o bwysig bod plant o gefndiroedd teuluol incwm isel a bregus yn cael cymorth i ddarllen er mwyn iddynt fwynhau darllen, gan helpu i sicrhau chwarae teg a goresgyn anfantais.

Darllenwch fwy am fanteision darllen

Ynglŷn â'r Papur Briffio hwn

Mae'r papur briffio hwn yn amlinellu tueddiadau allweddol o ran y mwynhad y mae plant ysgolion cynradd yn ei gael o ddarllen ac mae'n tynnu sylw at y rôl sylweddol y mae athrawon yn ei chwarae wrth helpu plant i fwynhau darllen.

Dyma un o gyfres o adroddiadau ymchwil newydd BookTrust ar **Ddarllen yn y Blynyddoedd Cynnar**, sydd hefyd yn cynnwys:

- **Arferion darllen plant yn y blynyddoedd cynnar**
- **Rôl 'dylanwadwyr darllen' amrywiol wrth hybu teithiau darllen plant**
- **Cefnogi cylchoedd o ddarllenwyr o un genhedlaeth i'r llall**
- **Pam mae dechrau darllen ar y cyd yn bwysig a rôl Dechrau Da Babi**

Methodoleg Ymchwil

Mae'r papur briffio hwn yn tynnu ar ystod o ymchwil BookTrust, gan gynnwys:

- Y dadansoddiad diweddaraf o ddata Arolwg Teuluoedd BookTrust, astudiaeth sy'n genedlaethol gynrychioliadol ac sy'n cynnwys 4,277 o blant 7-17 oed a 7,871 o rieni a gofalwyr plant 0-17 oed ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng Chwefror a Mawrth 2021.
- Ein Harolwg Athrawon newydd gyda 2,942 o athrawon ysgolion cynradd yn Lloegr, a gynhaliwyd ym mis Awst 2024.
- Ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gyda rhieni, gofalwyr ac athrawon rhwng 2019 a 2024.

Beth mae'r ymchwil hon yn ei ddweud wrthym?

Mae'r mwynhad y mae plant yn ei gael o ddarllen yn dirywio wrth i blant symud ymlaen drwy'r ysgol

Mae ein hymchwil yn amlygu tuedd bryderus: mae'r mwynhad y mae plant yn ei gael o ddarllen yn lleihau wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol gynradd. Mae'r gostyngiad yn eu mwynhad o ddarllen yn dechrau'n gynnar, yn ystod Cyfnod Allweddol 1 (CA1), ac yn parhau trwy Gyfnod Allweddol 2 (CA2).



Er bod **70%** o rieni a gofalwyr yn dweud bod eu plant 2-4 oed yn 'caru' neu'n 'hoffi' darllen, mae hyn yn gostwng i **64%** ar gyfer plant 5-7 oed (CA1). Mae rhieni yn dweud wrthym mai dim ond **51%** o blant sy'n 'caru' neu'n 'hoffi' darllen erbyn diwedd yr ysgol gynradd.

Mae plant yn adrodd gostyngiad tebyg yn eu mwynhad o ddarllen drwy'r ysgol gynradd.



Er bod **33%** o blant 7 oed yn dweud wrthym eu bod yn 'caru' darllen, mae hyn yn gostwng i **29%** yn 10 oed ac yn gostwng ymhellach i ddim ond **25%** erbyn iddynt droi'n 11 oed.

Mae'r ffigurau hyn yn unol â'r astudiaeth Cynnydd mewn Llythrennedd Darllen Rhyngwladol (PILARS) ddiweddaraf, lle mai dim ond.

29% o ddisgyblion 10 oed (Blwyddyn 5) yn Lloegr sy'n dweud eu bod 'yn hoffi darllen yn fawr,' o'i gymharu â **42%** yn fyd-eang.

Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad cyson yn y mwynhad y mae plant yn ei gael o ddarllen ers 2016, gan adael Lloegr yn hanner isaf y 57 o wledydd sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth, o ran mesurau mwynhad darllen.³

Mae ein Harolwg Athrawon newydd yn nodi patrwm tebyg. Mae pryder athrawon am lefelau mwynhad darllen ymhlith eu disgyblion yn cynyddu wrth i blant symud ymlaen drwy'r ysgol gynradd.

Mae **48%** o athrawon Blynnyddoedd Cynnar Cyfnod Sylfaen/CA1 yn mynegi pryder ynghylch lefelau mwynhad darllen yn eu dosbarthiadau. Mae hyn yn codi i **63%** o athrawon CA2.

Rhwystrau i fwynhau darllen

Gwyddom o'n hymchwil fod heriau i gael plant i ddarllen a chynnal eu mwynhad ynddo.

Yn y cartref, gwyddom fod darllen ar y cyd – lle mae oedolyn neu frawd neu chwaer hŷn yn darllen gyda phlentyn – yn hanfodol ar gyfer meithrin mwynhad plant o ddarllen. Yn cyd-fynd ag ymchwil ehangach,⁴ mae ein data'n dangos cydberthynas rhwng darllen ar y cyd a mwynhad plant o ddarllen; po fwyaf y mae rhywun yn darllen gyda phlant, y mwyaf y maent yn mwynhau darllen.¹ Pan fydd rhieni a gofalwyr a'u plant yn gweld mwynhad ei gilydd, mae'n eu cymell i ddarllen gyda'i gilydd yn fwy.

Nid yw'n syndod bod darllen ar y cyd yn lleihau wrth i blant heneiddio, gan gyfrannu fwy na thebyg at y gostyngiad cyson yn y mwynhad y mae plant yn ei gael o ddarllen.

¹ Adroddir bod 78% o blant 2-11 oed y darllenir iddynt bob dydd yn mwynhau darllen o'i gymharu â 55% o'r rhai na ddarllenir iddynt.

Mae ein hymchwil yn dangos bod y dirywiad mewn darllen ar y cyd yn dechrau'n gynnar yn ystod plentyndod.



Er bod **67%** o blant 2-4 oed yn cymryd rhan mewn darllen ar y cyd yn ddyddiol gydag oedolyn, mae hyn yn gostwng i **54%** erbyn 5-7 oed (CA1) ac i **40%** erbyn 8-11 oed (CA2).

Yn ein hymchwil ansoddol, mae teuluoedd yn dweud wrthym y gallant ei chael hi'n anodd cynnal sesiynau darllen ar y cyd yn y cartref wrth i'w plant fynd yn hŷn. Mae rhieni a gofalwyr yn wynebu galwadau gwahanol ar eu hamser eu hunain gan gynnwys anghenion plant eraill ac aelodau o'r teulu.

Mae rhai yn dweud wrthym nad oes ganddynt yr hyder i ddewis y llyfrau cywir i'w plant. Mae eraill yn adrodd diffyg hyder wrth ennyn diddordeb plant mewn llyfrau a straeon. I blant, gall anghenion gwaith cartref a diddordebau eraill, gan gynnwys amser sgrin, effeithio ar yr amser a dreulir yn darllen.

Mewn ysgolion, mae athrawon ysgolion cynradd yn wynebu heriau sylweddol wrth hyrwyddo darllen er pleser, sydd hefyd yn dod yn fwy amlwg wrth i blant fynd yn hŷn. Yn ein Harolwg Athrawon, mae athrawon ysgolion cynradd yn adrodd cyfres o rwystrau, gan gynnwys yr amser cyfyngedig sydd ar gael yn ystod y diwrnod ysgol i ddisgyblion ddarllen er mwynhad, diffyg cefnogaeth rhieni ar gyfer mwynhad o ddarllen – sy'n adleisio'r heriau a ddisgrifir gan rieni, argaeledd cyfyngedig o lyfrau i ysbrydoli plant a rhwystrau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad a rhuglder darllen plant.

Y rôl mae athrawon yn ei chwarae wrth feithrin mwynhad o ddarllen

Mae ein hymchwil gyda theuluoedd yn tynnu sylw at y rôl hanfodol y gall athrawon ac ysgolion ei chwarae wrth gefnogi mwynhad plant.



Yn ôl ein Harolwg Teuluoedd, mae **73%** o rieni a gofalwyr plant 5-11 oed yn credu bod ysgol eu plant yn annog cariad at ddarllen ymhlith ei disgyblion yn effeithiol.

Ar ôl aelodau agos o'r teulu, ystyrir mai athrawon yw'r mwyaf dylanwadol wrth feithrin mwynhad plant o ddarllen, yn bwysicach nag aelodau estynedig o'r teulu, ffrindiau ac oedolion eraill fel awduron neu ddylanwadyr cyfryngau cymdeithasol.

Mae rhieni a gofalwyr hefyd yn dweud wrthym fod athrawon ac ysgolion yn darparu profiadau darllen ar y cyd gwerthfawr i'w plant ac yn rhoi mynediad at lyfrau i'w darllen am hwyl. Mae ymchwil wedi dangos yn gyson y gall y mathau hyn o gymorth gan athrawon ac ysgolion gynyddu mynediad plant at ystod ehangach o lyfrau a'u helpu i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen.⁵



Mae **62%** o rieni a gofalwyr plant 5-11 oed yn dweud bod eu plant yn gwrando'n rheolaidd ar oedolyn yn darllen llyfr neu stori yn ystod gwersi ysgol.

Dywed **47%** o blant 8-11 oed (CA2) eu bod yn darganfod llyfrau newydd drwy eu hathrawon.

O ystyried bod llawer o rieni'n cael trafferth gwneud darllen yn rhan o fywyd teuluol a'r effaith bwysig y mae hyn yn ei chael ar fwynhad plant o ddarllen, gall amser a fuddsoddir gan ysgolion i gefnogi teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd darllen gyda'u plant gael effaith sylweddol.

“Bob wythnos mae fy merch yn dod â llyfr stori adref o'r ysgol ac rydym yn ei ddarllen amser gwely. Felly, rwy'n tueddu i wneud o leiaf 15 munud gyda'i llyfr darllen bob dydd..”
Rhiant, Lloegr

“Mae ganddyn nhw'r peth yma o'r enw Seren Stori yn nosbarth Derbyn fy merch lle mae'r Seren Stori yn cael dewis y llyfr i'w ddarllen y diwrnod hwnnw, ac mae ganddyn nhw gadair fach arbennig yn yr ystafell ddosbarth fel y gallan nhw eistedd yno tra bod yr athro yn darllen y llyfr. Dwi'n cofio pan gafodd fy merch ei thro i fod yn Seren Stori, roedd hi mor gyffrous. Pan aeth adref, fe ddywedodd wrthyf y stori a gafodd ei darllen yn yr ysgol y diwrnod hwnnw.”
Rhiant, Lloegr

Derbynnir yn eang, heb gefnogaeth gan ysgolion ac athrawon, y byddai llawer o blant yn colli allan ar y manteision uniongyrchol a gydol oes a geir trwy ddarllen. Mae ein hymchwil gydag athrawon hefyd yn nodi'n glir yr angen am gymorth i ysgolion ac athrawon i ysgogi mwynhad o ddarllen yng nghymunedau eu hysgolion.



Sut mae BookTrust yn cefnogi ysgolion ac athrawon i helpu plant a theuluoedd i feithrin arferion darllen?

Cenhadaeth BookTrust yw sicrhau bod pob plentyn yn darllen yn rheolaidd ac o'i wirfodd. Rydym yn cynnal rhaglenni newid ymddygiad cenedlaethol ar raddfa fawr ar gyfer teuluoedd blynyddoedd cynnar ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gefnogi arferion darllen ar y cyd yn gynnar. Wrth i blant fynd yn hŷn, rydym yn cefnogi staff yr ysgol i feithrin cariad at ddarllen yn y plant sydd yn eu gofal.

Mae ein gwaith mewn ysgolion yn cydnabod bod darllen ar y cyd gartref er mwynhad yn cael effaith gadarnhaol bwysig ar ganlyniadau plant ond bod darllen ar y cyd yn anodd i lawer o deuluoedd.

Rydym yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu ffyrdd o ymateb i'r materion hyn yn eu cymunedau ysgol eu hunain:

- Mae gan yr **hyb Ysgolion Cynradd** ar wefan BookTrust gyfres helaeth o adnoddau digidol sydd wedi'u cynllunio i gefnogi athrawon i annog mwynhad o ddarllen yng nghymunedau eu hysgolion. Mae hyn **yn cynnwys adnoddau ar gyfer annog teuluoedd i ddarllen ar y cyd** – yn seiliedig ar ein rhaglenni newid ymddygiad ar raddfa fawr. Mae gennym fideos, poster i ac asedau cyfryngau cymdeithasol y gall ysgolion eu lawrlwytho a'u defnyddio gyda theuluoedd. Mae gennym offer i gefnogi athrawon fel dylanwadrwydd darllen allweddol, gan eu helpu i fodelu rhannu straeon, i ddeall dewisiadau darllen eu disgyblion ac i wybod y llyfrau gorau i ysbrydoli eu disgyblion i ddarllen.
- Rydym yn cyhoeddi **ymchwil ar fanteision darllen** ac **ymddygiadau darllen yn y blynyddoedd cynnar** i gryfhau dealltwriaeth mewn ysgolion o'r amgylchedd cartref ar gyfer plant cyn oed ysgol ac oed ysgol.
- Rydym yn **cynnal gweminarau** sy'n cynnig awgrymiadau ar sut i gefnogi mwynhad o ddarllen yn yr ysgol a gartref.

- Rydym yn **adolygu'r llyfrau plant diweddaraf** i gefnogi athrawon i ddod o hyd i'r adnoddau sydd fwyaf tebygol o gefnogi'r mwynhad y mae disgyblion yn ei gael o ddarllen, gan gynhyrchu **rhedrau llyfrau** thematig yn rheolaidd ar gyfer grwpiau oedran penodol, ar faterion penodol ac ar bynciau'r cwricwlwm. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar hyrwyddo llyfrau amrywiol, cynhwysol a chynrychioliadol.
- Bob tymor yr hydref, rydym yn cyhoeddi canllaw i 100 o'r llyfrau gorau o'r flwyddyn ddiwethaf – y **Canllaw Llyfrau Gwych** – i gefnogi athrawon yn eu gwaith. Mae pob ysgol gynradd yn Lloegr yn derbyn copi caled o'r canllaw hwn, ac mae ar gael ar ein gwefan yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae ein rhaglen **BookTrust Represents** yn cynnwys ymweliadau rhithwir gan awduron o liw ac awduron o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiant cyhoeddi, i gefnogi athrawon a phlant i ddarganfod y llyfrau plant amrywiol gorau ac i ysbrydoli cariad at ddarllen.
- Rydym yn rhedeg rhaglen genedlaethol y blynyddoedd cynnar, **Amser Stori BookTrust**, mewn 90% o lyfrgelloedd. Mae'r rhaglen hon yn arddangos y llenyddiaeth newydd orau i blant 0-5 oed i ysbrydoli mwynhad o ddarllen. Mae athrawon Derbyn wedi mynd â disgyblion ar deithiau ysgol i fwynhau Amser Stori BookTrust gyda'u dosbarthiadau ac mae eraill yn hyrwyddo Amser Stori BookTrust yng nghymunedau eu hysgolion i annog rhannu straeon gartref.
- Yng Nghymru, mae **Pori Drwy Stori**, ein rhaglen ddwyieithog ar gyfer plant oed meithrin a derbyn yn datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, siarad a gwranddo, gan ddefnyddio adnoddau ffisegol a digidol.
- Rydym yn rhedeg **Clwb blwch llythyrau**, y rhaglen hirsefydlog a brynir gan ysgolion ar gyfer plant a theuluoedd sydd angen cymorth darllen ychwanegol, dwysby.



Ynglŷn â BookTrust

Fel yr elusen ddarllen fwyaf i blant y DU, rydym am i bob plentyn ddarllen yn rheolaidd, a hynny o'i wirfodd.

Rydym yn cyrraedd miliynau o blant a theuluoedd bob blwyddyn, gan eu hysbrydoli gyda llyfrau ac adnoddau i'w rhoi ar ben y ffordd o ran eu taith ddarllen. Rydym yn darparu ystod eang o lyfrau, adnoddau a chymorth sydd wedi'u curadu a'u dylunio'n ofalus i helpu teuluoedd i ddechrau rhannu straeon a pharhau i ddarllen drwy gydol plentyndod. Rydym yn cynnig mwy o gymorth wedi'i dargedu i deuluoedd o gefndiroedd incwm isel a bregus oherwydd ein bod yn gwybod mai'r plant hyn fydd yn elwa fwyaf o fanteision darllen.

Mae ein cymorth, sydd wedi'i gynllunio i newid ymddygiad darllen, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn gan gynnwys ymchwil gyda rhieni, gofalmwyr ac ymarferwyr. Rydym yn deall ac yn dylunio ar gyfer strwythurau, amgylchiadau a dewisiadau amrywiol iawn teuluoedd yn y Deyrnas Unedig.



Cysylltwch â ni

queries@booktrust.org.uk

booktrust.org.uk

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol
@BookTrust

©2024 BookTrust. Rhif elusen:: 313343



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**



Awards 2023
Winner
Activation of Insight

Cyfeiriadau

- 1 McGeown, S., Johnston, R.S., Walker, J., Howatson, K., Stockburn, A., and Dufton, P. (2015). The relationship between young children's enjoyment of learning to read, reading attitudes, confidence and attainment. *Educational Research*, 57, 389 – 402; Cremin, T. (2014). Reading for pleasure and reader engagement: Reviewing the research; Gambrell, L. B. (2015). Getting Students Hooked on the Reading Habit. *The Reading Teacher*, 69(3), 259–263; Guthrie, J. T., and Wigfield, A. (2000). Engagement and motivation in reading. In M. L. Kamil, P. B. Mosenthal, P. D. Pearson, and R. Barr (Eds.), *Handbook of reading research*, Vol. 3, pp. 403–422). Lawrence Erlbaum Associates Publishers.
- 2 Education Policy Institute (2024) Annual Report 2024.
- 3 Lindorff, A., Stiff, J. a Kayton, H. (2024) PIRLS 2021: National Report for England. Department for Education.
- 4 Senechal, M. (2006). Testing the Home Literacy Model: Parent Involvement in Kindergarten Is Differentially Related to Grade 4 Reading Comprehension, Fluency, Spelling, and Reading for Pleasure. *Scientific Studies of Reading*, 10(1), 59–87; Lyytinen, P., Laakso, M.L. a Poikkeus, A.M. (1998). Parental contribution to child's early language and interest in books. *Eur J Psychol Educ* 13, 297–308.
- 5 Cremin, T., and Scholes, L. (2024). Reading for pleasure: scrutinising the evidence base – benefits, tensions and recommendations. *Language and Education*, 38(4), 537–559; McGeown, S., and K. Wilkinson. 2021. *Inspiring and Sustaining Reading for Pleasure in Children and Young People: A Guide for Teachers and School Leaders*. UK: UKLA Minibook; Merga, M. K. 2017. "Becoming a Reader: Significant Social Influences on Avid Book Readers." *School Library Research: Research Journal of the American Association of School Librarians* 20:1–21.